**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Rhys Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Emrys Wynne – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Gareth Sandilands – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi am y penderfyniad brys a wnaed, o dan 2.9 y cyfansoddiad, i derfynu'r contract rhwng y Cyngor ac R L Davies iddynt weithredu fel y prif gontractwr ar gyfer Depo Gwastraff 2 ar Ystâd Colomendy, Dinbych. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN - ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD TREFNIADAETH YSGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) adolygu'r Adroddiad Gwrthwynebiad ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad;*<br><br>*(b) cadarnhawyd ei fod yn fodlon y dilynwyd proses statudol fel y nodwyd yn Nghod Sefydliad yr Ysgol;*<br><br>*(c) cymeradwyo'r cynnig fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol o ran cynyddu gallu Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220, a*<br><br>*(d) cadarnhawyd eu bod wedi darllen, deall a chymryd i ystyriaeth yr Asesiad o Effaith ar Les, fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaeth, gan nodi nad oedd lleoliad safle ar gyfer ailddatblygu wedi'i gytuno nai'i ymrwymo gan y Cabinet na'r Cyngor.* |
| **6** | STRATEGAETH YNNI GOGLEDD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | CYMRU, Y CYNLLUN GWEITHREDU CYSYLLTIEDIG Â CHYNLLUNIO YNNI ARDAL LEOL YN SIR DDINBYCH | *(a) cymeradwyo Strategaeth Ynni Gogledd Cymru a Chynllun Gweithredu fel sydd ynghlwm i'r adroddiad, yn cymeradwyo'r weledigaeth ac uchelgais y strategaeth, ond yn dymuno mynegi amheuaeth am y defnydd o niwclear i gyflawni uchelgeisiau datgarboneiddio'r rhanbarth, a*<br><br>*(b) nodi dechrau Cynllunio Ynni Ardal Leol yn y sir.* |
| **7** | COMISIYNU SEFYDLIADAU I DDARPARU RHAGLEN DAN Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet y cytuno i gomisiynu Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i gynnal rhaglen o waith yn cyfuno darpariaeth uniongyrchol a chronfa allweddol ar gyfer themâu (a fyddai'n agored i geisiadau gan gymunedau Sir Ddinbych, boed yn breswyl neu'n fasnachol), fel y manylwyd yn Atodiad A ac Atodiad B yr adroddiad.* |
| **8** | ARGYMHELLION BWRDD Y GYLLIDEB - CYFALAF | ***PENDERFYNWYD** bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2023/24 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r ffurflen gomisiynu i dendro, trwy un o'r fframweithiau sy'n bodoli, ar gyfer bob dosbarth o wasanaethau yswiriant (ac eithrio morol a therfysgaeth sy'n farchnadoedd arbenigol) ar gyfer yr awdurdod, fel nodir yn adran 6.8 ac Atodiad 5 yr adroddiad, a*<br><br>(c) *cymeradwyo'r weithdrefn i ddileu Trethi Busnes na ellir eu hadennill, fel y manylir yn adran 6.9 yn Atodiad 6 yr adroddiad.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **10** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*. |